**Cafodd yr ymateb hwn ei gyflwyno i'r ymgynghoriad ar y cyd a gynhelir gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fel sail i'w gwaith craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

**This response was submitted to the joint consultation held by the Health and Social Care Committee and the Public Accounts and Public Administration Committees to inform their scrutiny of Digital Health and Care Wales**

**SDHCW 12**
**Ymateb gan: | Response from: Archwilio Cymru | Audit Wales**

---

**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Medi 2022

# Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Cyflwyniad Tystiolaeth

### Cyflwyniad

1 Rydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i ar gyfer craffu Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus .

2 Mae'r cyflwyniad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau o archwilio IGDC, gan gynnwys canfyddiadau archwilio sy'n ymwneud â systemau TG cenedlaethol y GIG a gynhelir gan IGDC, yn ogystal â chanfyddiadau o astudiaethau sy'n ymwneud â'r maes digidol a seiber ehangach.

3 Nid ydym wedi ailedrych ar ganfyddiadau ein hadroddiad cynharach ym mis Ionawr 2018 ar Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru a gefnogodd yr ymchwiliad a'r adroddiad dilynol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y pumed Senedd. Bu'r ddau adroddiad a gyfeirir atynt yn gefndir i greu IGDC. Er hynny, mae llawer o'r materion a nodwyd gan y gwaith hwnnw yn parhau i fod yn berthnasol i gyflawniad parhaus IGDC a'r cyd-destun ehangach y mae'n gweithredu ynddo.

### Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol

4 Gan gydnabod bod IGDC yn gorff GIG newydd a sefydlwyd ym mis Ebrill 2021, fe wnaethom gwblhau Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol gyda'r nod o gefnogi IGDC datblygiad a dysgu sefydliadol, gan barhau i helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

5 Canfu'r Adolygiad fod "IGDC yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau o dan amgylchiadau gweithredu heriol ".

6 Er na wnaethom unrhyw argymhellion ffurfiol, gwnaethom nodi rhai cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella yn ymwneud â sut y mae IGDC:

- Yn sicrhau ei fod ar flaen y gad o ran datblygiadau arloesol pellach trwy gyd-ddylunio a chyd-greu, yn enwedig ynghylch galluogi iechyd a gofal yn ddigidol.
- Yn manteisio ar brofiadau amrywiol ei Aelodau Annibynnol i ddod â meddylfryd newydd a dull arwain ffres, gan gadw'r cymysgedd sgiliau dan sylw.

- Yn datblygu ei ddulliau adrodd mewnol ymhellach, ac yn gwella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach.
- Yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar strategaeth y sefydliad i roi eglurder pellach ar ei weledigaeth a'i amcanion hirdymor.

7 Mae IGDC wedi paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r cyfleoedd hyn ar gyfer gwella ac arloesi, ac adroddir cynnydd fel mater o drefn i'w Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

8 Rydym ar hyn o bryd yn gwneud gwaith 'Asesu Strwythuredig' yn IGDC, sy'n archwilio trefniadau yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, rheoli ariannol, cynllunio strategol, a ffactorau eraill sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r sefydliad yn defnyddio ei adnoddau. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau tua diwedd 2022.

## Adolygiad o Systemau TG y GIG a Gynhelir yn Genedlaethol yn 2020-21

9 Mae Safon Archwilio Rhyngwladol (ISA) 315 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael dealltwriaeth o reolaethau TG systemau ariannol a ddefnyddir gan GIG Cymru i roi sicrwydd i bwrpas barn archwiliad ariannol y GIG.

10 Er bod y gwaith yn cael ei wneud yn bennaf er mwyn rhoi sicrwydd i farn archwilio ariannol y GIG, mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i adnabod risgiau posibl a allai gynnwys:

- seilwaith wedi dyddio a sydd heb ei gefnogi;
- trefniadau diogelwch mynediad sy'n gadael y system yn agored i fynediad ac ymosodiad heb awdurdod;
- colli neu mynediad heb awdurdod at ddata; a
- gweithdrefnau rheoli newid annigonol sy'n golygu y gallai'r system gael ei pheryglu neu na fyddai ar gael ar ôl cymhwyso patsh newydd, uwchraddio neu ryddhau'r gronfa ddata neu'r meddalwedd cymhwysiad neu newid seilwaith.

11 Daethom i'r casgliad bod y rheolaethau TG a archwiliwyd yn rhoi sicrwydd **"**bod gwerthoedd ariannol a gynhyrchir gan y systemau ar gyfer 2020-21 yn debygol o fod yn rhydd o gamddatganiad materol, er y gellid cryfhau rhai rheolaethau". Nodwyd hefyd bod cynlluniau ar waith i uwchraddio rhai systemau.

12 Cafodd ein hadroddiad ei rannu'n breifat ag IGDC, yn hytrach na'i gyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru, er mwyn osgoi'r risg o rannu canfyddiadau a allai fod o gymorth i'r rhai sy'n ystyried ymosodiadau seiber ar gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein hadroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd IGDC yn breifat, ac mae cynllun gweithredu wedi ei baratoi mewn ymateb i'n hargymhellion.

13 Rydym wedi adolygu systemau TG y GIG a gynhelir yn genedlaethol eto eleni fel rhan o'n harchwiliad ariannol o gyfrifon 2021-22. Mae casgliadau ein hadolygiad yn

gyson â chanfyddiadau yr adolygiad y llynedd fel y nodwyd ym mharagraff 11 uchod. Rydym hefyd wedi adolygu cynnydd IGDC yn erbyn  argymhellion y llynedd fel rhan o'r adolygiad eleni. Byddwn yn cwblhau ein hadroddiad yn ystod yr hydref, ac yn rhoi gwybod i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd DHCW ym mis Chwefror 2023.

## Archwilio Cyfrifon IGDC 2021-22

14 Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol ardystio datganiadau ariannol IGDC ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ar 15 Mehefin 2022. Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar 17 Mehefin 2022.

15 Fe wnaethom gyhoeddi barn archwilio ddiamod a gwnaethom un argymhelliad, a dderbyniwyd yn llawn. Yr argymhelliad yw bod bywydau defnyddiol asedau nad ydynt wedi'u dibrisio'n llawn yn destun adolygiad blynyddol ac bod cyfnod gweddill oes yn cael ei addasu fel y tybir yn angenrheidiol.

16 Rydym hefyd wedi cyhoeddi Offeryn Data Cyllid y GIG sydd bellach yn cynnwys data ar gyfer IGDC ochr yn ochr â chyrff eraill y GIG mewn gwahanol feysydd.

## System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

17 Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gyfarwydd â'n hadroddiad ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.  Daethom i'r casgliad bod "gweithredu a chyflwyno WCCIS yn cymryd llawer hirach ac yn profi'n fwy costus na'r disgwyl. Er gwaethaf ymdrechion i gyflymu'r broses, mae'r rhagolygon ar gyfer y nifer sy'n manteisio'n llawn a gwireddu manteision yn parhau i fod yn ansicr. Mae dal angen datrys yn llawn rhai materion pwysig sy'n ymwneud â gweithrediad y system, safonau data ac adrodd ar fanteision ".

18 Fe wnaethom roi diweddariad mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 1 Gorffennaf 2022. Nododd y diweddariad fod rhaglen WCCIS ar gam allweddol. Ymhlith pethau eraill, roedd yn pwysleisio, " Yn dilyn diagnosis sylweddol o'r anawsterau sydd wedi effeithio ar raglen WCCIS, mae angen arweinyddiaeth gref yn awr i sicrhau gwerth am arian o'r buddsoddiad o £30 miliwn hyd yma a gwariant yn y dyfodol ac i benderfynu ar ddyfodol cyffredinol y rhaglen mewn partneriaeth â'r sefydliadau hynny sy'n defnyddio'r system ar hyn o bryd a'r rhai nad ydynt. Fel rhan o hyn, bydd angen penderfyniad ar y strategaeth gontractio yn y dyfodol ac a ddylid cadw'r ymrwymiad i ateb un system neu ganiatáu ar gyfer gwahanol systemau 'rhyngweithredol' gan ddefnyddio'r un safonau a sicrhau bod datblygu'r safonau hynny'n symud yn gyflymach nag sydd ganddo hyd yma.".

## Seibergadernid yn y sector cyhoeddus

19 Ym mis Ionawr 2021, gwnaethom gwblhau adolygiad o drefniadau seibegadernid ar lefel Bwrdd (neu gyfwerth). Roedd y gwaith yn cynnwys 72 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar y pryd a sefydliadau eraill GIG Cymru. Cafodd yr adroddiad ei rannu'n breifat gyda'r cyrff a archwiliwyd a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pryd.

20 Yn ôl yr adolygiad mae "ymosodiadau seibr yn fygythiad cyffredin a chynyddol i gyrff cyhoeddus ac mae lle i gryfhau cadernid drwy gyfrifoldebau cliriach, cynllunio gwell, a mwy o ymwybyddiaeth a sgiliau".

21 Er bod y gwaith hwn yn dod o'r cyfnod cyn creu IGDC, gwnaethom gydnabod rôl arweinyddiaeth bwysig IGDC o ran seiberddiogelwch fel rhan o'n Hadolygiad Llywodraethu Sylfaenol. Gwnaethom nodi bod eglurder ar arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn y maes hwn o weithredu gyda holl bartneriaid IGDC yn hanfodol.

22 Rydym bellach yn dilyn ein hadroddiad seibergadernid 2021 gydag adolygiad newydd sy'n ceisio rhannu'r hyn a ddysgwyd o ymosodiadau seiber diweddar. Ein nod yw cwblhau'r gwaith ym mis Hydref 2022. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiad cyfrinachol ac yn cael eu rhannu'n ddiogel gyda chyrff cyhoeddus.

## Gwaith archwilio lleol y dyfodol yn IGDC

23 Mae ein darpar waith archwilio perfformiad yn IGDC yn cwmpasu'r canlynol:

- Trefniadau cynllunio'r gweithlu ledled Cymru gyfan: Bydd y gwaith hwn yn archwilio'r risgiau i'r gweithlu y mae cyrff y GIG, gan gynnwys IGDC, yn eu profi ar hyn o bryd ac yn debygol o brofi yn y dyfodol. Bydd yn edrych ar sut mae gweithgareddau cynllunio'r gweithlu lleol a chenedlaethol yn cael eu datblygu i reoli'r risgiau hynny a mynd i'r afael ag anghenion gweithlu tymor byr, canolig a thymor hirach. Bydd y gwaith yn cael ei deilwra er mwyn cyd-fynd â chyfrifoldebau cyrff unigol y GIG o ran cynllunio'r gweithlu.
- Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol: Bydd y gwaith hwn yn archwilio'r gyllideb a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol o fewn IGDC. Fe fydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod hydref 2022.
- Cysylltiadau a rhyngweithiadau IGDC â chyrff eraill y GIG: Rydym yn bwriadu archwilio sut mae IGDC yn gweithio gyda chyrff eraill y GIG yng Nghymru ar lefel strategol a gweithredol i benderfynu i ba raddau y caiff ei ystyried yn 'bartner digidol dibynadwy'. Cytunir ar union bwyslais ac amseriad y gwaith hwn gyda IGDC a chyrff eraill y GIG fel rhan o'r gwaith o baratoi ein cynlluniau archwilio lleol yn 2023.